
# Nyth

## Adroddiad Blynyddol

2020-21



Rhan o raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru
Part of the Welsh Government Warm Homes programme

Nyth Nest
Gwneud Cymru'n Glyd
Making Wales Cosy

Cartrefi Clyd
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Warm Homes

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhagair y Gweinidog



## Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae ein Rhaglen Cartrefi Clyd yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol at wella ansawdd cartrefi yng Nghymru.

Mae'n cefnogi pobl sy'n ei chael hi'n anodd talu costau ynni eu cartrefi, ac mae hefyd yn cyfrannu at ein nod o leihau allyriadau carbon sy'n niweidio'r amgylchedd naturiol.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae pobl Cymru wedi wynebu heriau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen. Trodd pandemig byd-eang COVID-19 ein bywydau ben i waered dros nos ac mae wedi effeithio ar bob un ohonom. Fodd bynnag, drwy gydol y pandemig, mae cynllun Nyth Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru wedi parhau i gefnogi rhai o'n haelwydydd mwyaf agored i niwed. Blaenoriaethwyd gwaith brys ar gyfer y rhai a oedd yn wynebu'r caledi mwyaf.

Yn 2020-21, darparodd Llywodraeth Cymru £20.1m ar gyfer Cynllun Nyth. Mae ein buddsoddiad wedi helpu i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi ar incwm is. Gwnaeth wahaniaeth mawr i filiau ynni a hefyd helpu pobl i ymdopi'n well â chynnydd mewn prisiau ynni yn y dyfodol. Mae mwy na 4,500 o gartrefi ar incwm is wedi cael budd o fesurau effeithlonrwydd ynni cartrefi yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Drwy dargedu cymorth yn well eleni roedd dros 16% o'r cartrefi a gafodd fudd o'r cynllun yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol ac roedd 35% mewn tlodi tanwydd. Mae hyn yn cyflawni ein nod o helpu'r rhai gwaethaf eu byd yn gyntaf wrth inni geisio mynd i'r afael â thlodi tanwydd.


Drwy Gynllun Nyth, rydym hefyd wedi sicrhau bod cyngor ar ynni ar gael i fwy na 14,700 o bobl, ochr yn ochr â chymorth arall i'w helpu i wneud y gorau o'u harian. Mae'r cyngor hwn wedi cynnwys cyfeirio unigolion at wasanaethau trydydd parti megis rhai sy'n cadarnhau a ellir hawlio budd-daliadau ai peidio ac sy'n rhoi cyngor ar reoli arian.

Mae Cynllun Nyth hefyd yn bwysig i leihau allyriadau carbon, gan gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Un o'r heriau datgarboneiddio mwyaf rydym yn ei hwynebu yw sicrhau bron dim allyriadau carbon o adeiladau. Er nad cynllun datgarboneiddio yw Nyth yn bennaf, mae buddiannau uniongyrchol carbon yn cyfrannu i'r amcan hwn. Bydd y gwersi a ddysgir drwy Nyth, gan Lywodraeth Cymru a'r gadwyn gyflenwi, yn dylanwadu ar gynlluniau i ddatgarboneiddio adeiladau yn y dyfodol.

Mae'r ansicrwydd presennol yn y farchnad ynni a chostau ynni cynyddol yn dangos, fwy nag erioed, fod angen gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi ledled Cymru er mwyn lleihau'r defnydd o ynni a chostau cysylltiedig. Dyma ffocws rhaglen Cartrefi Clyd.

Wrth i'r wlad ddod dros bandemig COVID-19, byddaf yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol sy'n cyflwyno Cynllun Nyth er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi a chynorthwyo'r bobl hynny sydd â'r angen mwyaf.

**Julie James AS**
Gweinidog Newid Hinsawdd



# Cynnwys


2 Rhagair gan Julie James, Gweinidog Newid Hinsawdd

5 Ynglŷn â Nyth

6 Cyrraedd Aelwydydd sy'n Agored i Niwed yn ystod COVID-19

7 Meithrin Partneriaethau Ledled Cymru

9 Cyngor a Chymorth

11 Pecynnau Gwella Ynni Cartref

12 Nodweddion Aelwydydd ac Eiddo

14 Gwella Effeithlonrwydd Ynni

16 Buddsoddiad Llywodraeth Cymru

17 Boddhad Deiliaid Tai

18 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

19 Sicrhau Buddiannau Ychwanegol

20 Edrych i'r Dyfodol

# Ynglŷn â Nyth

## Ers 2011, mae cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyngor diduedd am ddim ac wedi darparu gwelliannau effeithlonrwydd ynni i aelwydydd incwm isel a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd ledled Cymru.

Gwyddom fod 2020-21 wedi bod yn flwyddyn heriol i bob aelwyd yng Nghymru, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed. Buddsoddwyd £20.1 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru mewn effeithlonrwydd ynni'r stoc dai ledled Cymru, gan helpu i leihau biliau tanwydd a gwella iechyd a llesiant aelwydydd incwm isel a'r rhai sy'n byw mewn cymunedau o amddifadedd ledled Cymru.

### Ein blaenoriaethau:

- Rhoi cyngor diduedd am ddim i aelwydydd, a'u cyfeirio at amrywiaeth o wasanaethau cymorth.
- Cefnogi aelwydydd cymwys gyda phecyn o fesurau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim, megis system gwres canolog, boeler neu inswleiddio.
- Gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner i sicrhau bod y cynllun yn cyrraedd yr aelwydydd mwyaf agored i niwed yng Nghymru yn ystod pandemig COVID-19.
- Cefnogi strategaeth tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru er mwyn helpu pobl sy'n cael trafferth talu costau ynni eu cartref.

### Ein Llwyddiannau

Er gwaethaf yr heriau a grëwyd gan COVID-19, yn 2020-21 gwnaethom y canlynol:

- Rhoi cyngor diduedd am ddim i 15,557 o aelwydydd, ac o'r rhain cafodd 4,559 o aelwydydd fesurau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim,
- Sef arbediad cyfartalog wedi'i fodelu o £305 y flwyddyn ar eu biliau ynni.
- Darparu gwiriadau hawl i fudd-daliadau a arweiniodd at gynnydd posibl o £2,091 ar gyfartaledd yn y budd-daliadau a hawliwyd gan aelwydydd.
- Sicrhau bod 100% o osodiadau wedi'u cwblhau gan osodwyr yng Nghymru, gan gynnwys 23 o brentisiaid a oedd yn gweithio ar y cynllun.

**Gwyliwch y fideo byr hwn** i weld sut y gwnaethom gefnogi Mrs Keogh, preswylydd ym Mhontypridd, i ostwng ei biliau ynni a gwella ansawdd ei bywyd.



# Cyrraedd Aelwydydd sy'n Agored i Niwed yn Ystod COVID-19

## Gyda chyfres o gyfyngiadau symud oherwydd COVID-19 ar waith ledled Cymru yn ystod 2020-21, bu'n rhaid i'r cynllun addasu i adlewyrchu sefyllfa a oedd yn newid yn gyson.


Llwyddodd ein gwasanaeth cynghori i weithredu drwy gydol y flwyddyn, a newidiodd ein gweithdrefnau ar gyfer gosodiadau i system o weithredu ar sail argyfwng yn unig rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, gan roi blaenoriaeth i gwsmeriaid a oedd yn agored i niwed heb wres, heb ddŵr poeth neu lle roedd unrhyw berygl i fywyd.

Defnyddiwyd amrywiaeth o weithgareddau hyrwyddo i ymgysylltu â chwsmeriaid ledled Cymru gyda gwaith marchnata a chyfathrebu wedi'i deilwra at gynulleidfaoedd penodol. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Hyrwyddo gwefan Nyth gyda thros 125,000 o ymweliadau yn ystod 2020-21.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i gyflwyno ymgyrch bostio uniongyrchol a wnaeth gyrraedd dros 60,000 o aelwydydd a oedd yn agored i niwed.
- Talu am hysbysebion Facebook a Twitter wedi'u targedu at gwsmeriaid cymwys ledled Cymru.
- Cefnogi byrddau iechyd, elusennau a sefydliadau cymunedol ledled Cymru er mwyn helpu i gyrraedd aelwydydd y gallai ein cyngor a'n cymorth fod o fudd iddynt.

Mae'r graff isod yn dangos canran yr ymholiadau a wnaed gan bob awdurdod lleol yng Nghymru.

Ymholiadau yn ôl Awdurdod Lleol 2020-21



# Meithrin Partneriaethau Ledled Cymru

## Mae ein Rheolwyr Datblygu Partneriaethau yn gweithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, elusennau a sefydliadau cymunedol ledled Cymru er mwyn helpu i gyrraedd aelwydydd y gallai ein cyngor a'n cymorth fod o fudd iddynt.

Mae'r partneriaethau hyn yn chwarae rôl hollbwysig wrth sicrhau bod y cynllun ar gael i'r bobl hynny sydd fwyaf agored i niwed a mwyaf anodd eu cyrraedd. Yn eu plith mae:

- Awdurdodau Lleol (e.e. swyddogion tai, gwasanaethau gofalwyr, cynhwysiant ariannol ac ynni)
- Pobl sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol (e.e. Cymdeithas y Gofalwyr, banciau bwyd a Home-Start Cymru)
- Pobl hŷn (e.e. Y Groes Goch, Age Cymru, Cymru Gynnes, Gofal a Thrwsio ac Age Connects)
- Y sector iechyd (e.e. byrddau iechyd lleol, Fferylliaeth Gymunedol Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru)
- Pobl â salwch hirdymor (e.e. Parkinson's UK, Macmillan, Y Gymdeithas Strôc, Gofalwyr Cymru)
- Pobl sy'n gwella ar ôl salwch meddwl (e.e. Hafal, Fforymau Cymunedau)
- Gwasanaethau cynghori (e.e. Cyngor ar Bopeth, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, Elusen y Diwydiant Glo – Sefydliad Lles Cymdeithasol y Diwydiant Glo)

Mae cwsmeriaid yn ymddiried mewn sefydliadau partner, yn enwedig grwpiau agored i niwed sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol y mae angen sicrwydd arnynt fod y cynllun yn gyfreithlon, neu grwpiau sydd ag anghenion amryfal, y mae Nyth yn rhan o'u datrysiad. Mae meithrin ac atgyfnerthu cydberthnasau â phartneriaid allweddol megis Age Cymru, Cymru Gynnes a Gofal a Thrwsio yn ein galluogi i gynyddu cynulleidfaoedd allweddol Nyth yn sylweddol drwy ddefnyddio eu llwyfannau, eu sianeli a'u rhwydweithiau.

O ganlyniad i COVID-19, nid oedd modd i'n Rheolwyr Datblygu Partneriaethau gyfarfod â sefydliadau a chwsmeriaid wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, roeddent yn gallu cysylltu drwy fideogynadledda, negeseuon e-bost a thros y ffôn o hyd. Gwnaethant gynnal a mynychu 385 o gyfarfodydd partner yn 2020-21.

Isod ceir rhai enghreifftiau o'r partneriaethau a feithrinwyd:

### Awdurdodau Lleol

Cynhaliwyd ymgyrchoedd postio uniongyrchol mewn partneriaeth ag 11 o awdurdodau lleol: Abertawe, Blaenau Gwent, Caerdydd, Castell-nedd a Phort Talbot, Ceredigion, Gwynedd, Pen-y-bont ar Ogwr, Powys, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Thorfaen. Cafodd y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau gyfle i weithio'n agos â Chaerffili, Casnewydd, Sir y Fflint a Wrecsam i alluogi ymgyrchoedd partneriaeth pellach i gefnogi preswylwyr yn yr awdurdodau hyn.

### Byrddau Iechyd

#### Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Rhoddodd y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau gyflwyniadau hyfforddiant ar wahân i Nyrsys Admiral sy'n rhoi cymorth i gleifion dementia yn eu cartrefi eu hunain ac i dimau Cynghorwyr Alzheimer's sy'n gweithio yn rhanbarth Hywel Dda. Bu'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau hefyd yn gweithio gyda thimau Iechyd Meddwl Cymunedol, Ffordd o Fyw a Rhoi'r Gorau i Smygu, a fydd yn cefnogi cleifion sydd â chyflyrau anadlol, cardiofasgwlaidd ac iechyd meddwl i gael cymorth Nyth. Yn ogystal, mae gwaith ymgysylltu parhaus yn mynd rhagddo â'r saith bwrdd iechyd ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o gymorth Nyth.

*"Trwy gydol fy nghais cefais fy nhrin â pharch. Ar ôl gweithio am dros 30 mlynedd a bellach yn methu â gweithio oherwydd iechyd gwael, rwy'n ddiolchgar i Nest am fy nghefnogi yn fy amser angen."*

Un o Drigolion, Sir Ddinbych

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau wedi cefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda phresenoldeb parhaus yn ei Fforymau Ymarferwyr Ymgysylltu, sef rhwydwaith o sefydliadau lle rydym wedi rhannu gwybodaeth am Nyth ac wedi nodi cyfleoedd i gydweithio. Rydym hefyd wedi gallu rhannu heriau cyffredin, tynnu sylw at bryderon a chefnogi ein gilydd.

## Partneriaethau Trydydd Sector

### Hwb Ynni Anabledd Scope

Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau wedi darparu hyfforddiant a chymorth i gynghorwyr yr Hwb Ynni Anabledd, prosiect newydd a ariennir gan y **Cynllun Unioni** Ynni sy'n cynnig cyngor ynni i aelwydydd anabl ac yn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw gostau ychwanegol y gallent fod yn eu hwynebu. Mae aelwydydd yng Nghymru wedi cael eu cyfeirio at wasanaethau Nyth.

### Gofal a Thrwsio 70+

Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau wedi bod yn gweithio'n agos â Swyddogion Ynni Cartref a Rheolwr Prosiect newydd eu penodi'r gwasanaeth Gofal a Thrwsio i'w helpu i nodi cwsmeriaid a fydd yn gymwys ar gyfer Nyth. Rydym wedi cyflwyno nifer o sesiynau hyfforddiant manwl iddynt ac rydym yn cynnig cymorth ar achosion unigol ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a sesiynau holi ac ateb. Rydym wedi'u hychwanegu at **Borth Partneriaid Nyth** lle y gallant wneud atgyfeiriadau a dilyn taith y cwsmer.

## Gwasanaethau Cynghori

### Cyngor ar Bopeth

Gwnaeth y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau barhau i weithio'n agos â swyddfeydd Cyngor ar Bopeth ledled Cymru ac maent yn darparu sesiynau briffio a diweddariadau rheolaidd i dimau rheoli, staff parhaol a gwirfoddolwyr. Maent yn gweithio'n agos ag amrywiaeth o gynlluniau cymorth ynni rhanbarthol a lleol a gyflwynir gan Gyngor ar Bopeth ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Conwy, Rhondda Cynon Taf, Sir Ddinbych, Sir Fynwy, Sir y Fflint ac Ynys Môn. Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau hefyd wedi rhoi cyflwyniadau i fforymau cynghorwyr Cymru gyfan i gefnogi prosiectau megis **Cynhesu Cymru**. Maent hefyd yn gweithio gyda Thîm Partneriaeth Cyngor ar Bopeth Cymru i greu trefniant atgyfeirio pwrpasol gyda gwasanaeth **Advicelink Cymru**, sy'n cysylltu pobl â chyngor o ansawdd ar ddyledion ac yn eu cyfeirio at arbenigwyr gwaith achos lleol. Gwnaeth y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau hefyd gefnogi Cyngor ar Bopeth yn ystod ei ymgyrch **Gaeaf Arbed Ynni Mawr**. Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, roedd digwyddiadau eleni ar ffurf digwyddiadau galw heibio cyhoeddus a gweithdai ynni ar-lein, gan weithio gyda Hyrwyddwyr Ynni Rhanbarthol Cyngor ar Bopeth.

*"Roeddwn yn nerfus iawn pan alwais ar Nest, ond roedd y ddynes ifanc y siaradais â hi yn rhagorol. Roeddwn i'n teimlo ei bod hi'n gofalu a bod rhywun yn gwrando arna i. Cefais gefnogaeth ar sut i gael bargen well ar fy miliau ynni cartref a chyngor arbed ynni ar gyfer y cartref, a gwnes hynny ac rwyf bellach yn arbed arian oddi ar fy miliau."*

Un o Drigolion, Abertawe

# Cyngor a Chymorth

## Yn 2020-21, rhoddodd Nyth gyngor wedi'i deilwra ac atgyfeiriadau at wasanaethau trydydd parti i 15,557 o aelwydydd.


Mae pob cwsmer sy'n ffonio llinell gymorth Nyth yn cael cyngor a chymorth wedi'u teilwra gan ein tîm er mwyn sicrhau y caiff yr help mwyaf priodol i ddiwallu ei anghenion penodol. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar arbed ynni ac effeithlonrwydd dŵr, pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim (os yw'n gymwys), a chyfeirio ac atgyfeirio at amrywiaeth o wasanaethau cymorth.

### Cymorth gan Drydydd Partïon

Yn 2020-21, cafodd 8,821 o aelwydydd eu hatgyfeirio at un neu fwy o wasanaethau trydydd parti, neu argymhellwyd y dylent gysylltu â gwasanaethau o'r fath. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Gwiriadau hawl i fudd-daliadau – mae Canolfan Gynghori Riverside yn darparu gwasanaeth adolygu i gwsmeriaid Nyth i'w helpu i wneud y mwyaf o'u hincwm
- Cyngor ar reoli arian – mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn rhoi cyngor annibynnol i gwsmeriaid ar reoli dyled ac ymdrin ag incwm a thaliadau'n fwy effeithiol
- Gwasanaethau Gofal a Thrwsio – mae Gofal a Thrwsio yn darparu gwasanaeth tasgmon, gwasanaeth gweithiwr achos, help gyda grantiau ac offer gwresogi dros dro i gwsmeriaid cymwys
- Cyngor ar dariffau ynni – mae Simply Switch yn rhoi cyngor annibynnol i gwsmeriaid ar y tariff a'r cyflenwr mwyaf effeithiol ar gyfer amgylchiadau'r cwsmer
- Gostyngiad Cartrefi Cynnes – mae'r prif gyflenwyr ynni yn rhoi gostyngiad oddi ar filiau ynni cwsmeriaid cymwys
- Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth – caiff cwsmeriaid cymwys eu hatgyfeirio at Western Power Distribution i gael cymorth ychwanegol os bydd toriad yn y cyflenwad trydan
- Gwasanaethau Tân ac Achub – gall aelwydydd sy'n agored i niwed gael gwiriad diogelwch tân yn y cartref drwy Wasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru
- Cynlluniau fforddiadwyedd dŵr – mae Nyth yn atgyfeirio cwsmeriaid at amrywiaeth o gynlluniau fforddiadwyedd a weithredir gan Dŵr Cymru
- Gwasanaethau cynghori eraill – caiff cwsmeriaid nad ydynt yn gymwys i gael un o becynnau gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref Nyth eu cyfeirio at sefydliadau priodol eraill. Maent hefyd yn cael cyngor a chymorth ar newidiadau ymddygiadol a all arbed arian ar eu biliau ynni.

Aelwydydd a Gafodd Atgyfeiriad Trydydd Parti 2020-21



## Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau

Yn ystod y flwyddyn, atgyfeiriwyd 917 o aelwydydd i gael gwiriad hawl i fudd-daliadau a nodwyd bod 203 o'r aelwydydd hynny yn gymwys i gael budd-daliadau newydd neu ychwanegol gwerth cyfartaledd o £2,091 fesul aelwyd (mae hyn yn cyfateb i £424,473 yn y budd-daliadau a hawliwyd).

| Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau | |
|---|---|
| Nifer y deiliaid tai a atgyfeiriwyd | **917** |
| Nifer y deiliaid tai a hawliodd fudd-daliadau newydd/ychwanegol | **203** |
| Cynnydd cyfartalog yn yr incwm blynyddol | **£2,091** |

## Gwasanaethau Gofal a Thrwsio

Mae asiantaethau Gofal a Thrwsio yn darparu amrywiaeth o wasanaethau er mwyn helpu pobl hŷn i fyw mewn cartrefi diogel sy'n briodol i'w hanghenion. Gwnaeth Nyth gyfeirio ac atgyfeirio 1,616 o aelwydydd at asiantaethau Gofal a Thrwsio yn 2020-21, sef cynnydd o 568 o gymharu â 2019-20.

| Gwasanaethau Gofal a Thrwsio | |
|---|---|
| Nifer y deiliaid tai a Atgyfeiriwyd | **1,616** |
| Nifer yr aelwydydd a ddefnyddiodd y gwasanaeth i'r anabl | **311** |
| Nifer y deiliaid tai a ddefnyddiodd y gwasanaeth Tasgmon | **70** |
| Nifer y deiliaid tai a ddefnyddiodd y gwasanaeth offer Gwresogi Dros Dro | **0** |
| Nifer y deiliaid tai a gafodd Cymorth Grant | **15** |
| Nifer y deiliaid tai a ddefnyddiodd y gwasanaeth Gweithiwr Achos | **242** |
| Nifer y deiliaid tai a gafodd gyngor yn unig | **21** |

## Gostyngiad Cartrefi Cynnes

Atgyfeiriwyd cyfanswm o 3,458 o gwsmeriaid at eu cyflenwr ynni ar gyfer y Gostyngiad Cartrefi Cynnes yn 2020-21, gyda 366 o gwsmeriaid Nyth yn gymwys ar gyfer y gostyngiad, sef cyfanswm arbedion o £51,240.

| Gostyngiad Cartrefi Cynnes | |
|---|---|
| Nifer y deiliaid tai a Atgyfeiriwyd | **3,458** |
| Nifer y deiliaid tai a gafodd y Gostyngiad Cartrefi Cynnes | **366** |
| Gwerth y Gostyngiad Cartrefi Cynnes | **£51,240** |

## Gwasanaethau Tân ac Achub

Atgyfeiriodd Nyth 1,143 o gwsmeriaid at Wasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, a chafodd 120 ohonynt wiriad diogelwch tân yn y cartref.

| Gwasanaeth Tân | |
|---|---|
| Nifer y deiliaid tai a atgyfeiriwyd | **1,143** |
| Nifer y deiliaid tai a gafodd adroddiad diogelwch yn y cartref | **120** |

## Cwmnïau Dŵr

Mae Nyth yn atgyfeirio cwsmeriaid at gynlluniau fforddiadwyedd Dŵr Cymru gan gynnwys HelpU, Dŵr Uniongyrchol, Cronfa Cymorth i Gwsmeriaid a Water Sure. Eleni, atgyfeiriwyd 2,295 o gwsmeriaid a chafodd 91 ohonynt gymorth a gostyngiad yn eu hôl-ddyledion.

| Cwmnïau Dŵr | |
|---|---|
| Nifer yr aelwydydd a atgyfeiriwyd | **2,295** |
| Cwsmeriaid a gafodd fudd o HelpU | **27** |
| Cwsmeriaid a gafodd fudd o Dŵr Uniongyrchol | **11** |
| Cwsmeriaid a gafodd fudd o'r Gronfa Cymorth i Gwsmeriaid | **3** |
| Cwsmeriaid a gafodd fudd o Water Sure | **11** |
| Cwsmeriaid a ychwanegwyd at y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth | **39** |

## Cymorth ar reoli arian

Cafodd cyfanswm o 2,025 o gwsmeriaid gyngor rheoli arian a chafodd 1,274 o gwsmeriaid ychwanegol gyngor ar reoli dyledion gan HelpwrArian hefyd.

| Cyngor ar reoli arian | |
|---|---|
| Cyngor ar reoli arian | **2,025** |
| Cyngor ar ddyledion | **1,274** |

# Pecynnau Gwella Ynni Cartref

## Mae cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i aelwyd agored i niwed sydd mewn tlodi tanwydd gan leihau biliau ynni aelwydydd drwy ddarparu gwelliannau effeithlonrwydd ynni am ddim yn y cartref.

Aelwyd agored i niwed yw aelwyd sy'n cynnwys

- person 60 oed neu drosodd,
- a/neu blentyn neu blant dibynnol o dan 16 oed,
- person sengl o dan 25 oed,
- person sy'n byw gyda salwch hirdymor neu sy'n anabl.

Caiff cwsmeriaid sy'n cysylltu â Nyth i gael cyngor a chymorth eu hasesu i weld a ydynt yn gymwys i gael pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim a all gynnwys boeler newydd, system gwres canolog a / neu ddeunydd inswleiddio.

Y meini prawf ar gyfer gwelliannau cartref yw:

- Bod aelod o'r aelwyd yn cael budd-dâl sy'n dibynnu ar brawf modd a bod y cartref yn eiddo preifat neu'n cael ei rentu'n breifat â sgôr ynni o E, F neu G; neu
- Bod aelod o'r aelwyd yn byw gyda chyflwr iechyd (anadlol, cylchrediad a meddyliol), yn cael incwm sydd islaw'r trothwyon diffiniedig a bod y cartref yn eiddo preifat neu'n cael ei rentu'n breifat â sgôr ynni o D, E, F neu G.

### Gweithio mewn Partneriaeth


Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Rhentu Doeth Cymru i sicrhau bod pob landlord preifat wedi'i gofrestru yn swyddogol cyn y gall gael cymorth gan y cynllun ar gyfer ei eiddo ar rent.

Bydd asesydd cwbl gymwys yn ymweld â chartref y cwsmer i gwblhau asesiad o'r tŷ cyfan, nodi'r mesurau mwyaf priodol a chosteffeithiol ar gyfer yr eiddo a chadarnhau a yw'r cwsmer yn gymwys. Mae tîm Nyth yn sicrhau bod yr holl ganiatadau a chydsyniadau gofynnol (landlordiaid, cynllunio ac ati) a gofynion trydydd parti (cysylltiadau nwy, cael gwared ar asbestos ac ati) yn cael eu cwblhau cyn cytuno ar y dyddiadau gosod â'r cwsmer.

Caiff yr holl wasanaethau gosod eu darparu gan rwydwaith o osodwyr yng Nghymru, o dan oruchwyliaeth a rheolaeth tîm Nyth. Cynhelir archwiliad o'r gwaith unwaith y bydd tîm Nyth wedi cael cadarnhad bod y pecyn o fesurau wedi'i osod. Os bydd arolygydd Nyth yn nodi unrhyw ddiffygion yn y gwaith, bydd yn sicrhau bod unrhyw waith adferol sydd ei angen yn cael ei gwblhau'n gyflym ac yn effeithiol.

Caiff pecynnau gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref Nyth eu cynllunio ar gyfer eiddo unigol felly nid oes pecyn safonol o fesurau, ond gallent gynnwys boeler newydd, system gwres canolog, inswleiddio'r atig neu inswleiddio waliau ceudod a gall rhai ohonynt gynnwys pympiau gwres ffynhonnell aer ac inswleiddio waliau allanol.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith y mae Nyth yn ei gyflawni yn ymwneud â systemau gwres canolog o hyd. Mae'r gosodiadau hyn yn cynnwys sawl mesur e.e. boeler, rheiddiaduron, thermostat ar gyfer ystafelloedd, rheolyddion gwres, falfiau rheiddiaduron thermostatig a phibellau lle y bo angen.




### Cynllun peilot iechyd Nyth

Cyflwynwyd meini prawf iechyd Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2017 i gyrraedd aelwydydd â phobl sy'n byw gyda chyflwr iechyd a waethygir gan dai oer neu laith, ac sy'n byw mewn tlodi tanwydd neu'n wynebu risg o dlodi tanwydd. Ymestynnwyd y peilot cychwynnol ym mis Ionawr 2018 tan fis Gorffennaf 2019 pan gyflwynwyd cyfres newydd o feini prawf, yn dilyn gwerthusiad manwl o'r cynllun peilot cychwynnol ym mis Ebrill 2018 ac adolygiad a gwerthusiad pellach. Lansiwyd cynllun peilot meini prawf iechyd newydd ym mis Gorffennaf 2019.

Rhwng Gorffennaf 2019 a Mehefin 2021, aseswyd 12,089 o aelwydydd trwy'r meini prawf iechyd, ar ôl methu â chwrdd â'r meini prawf budd-dal prawf modd. O'r rhain, roedd 6,000 yn cwrdd â'r meini prawf iechyd ac fe'u cyfeiriwyd at asesiad incwm. Pasiodd cyfanswm o 3,486 o aelwydydd yr asesiad incwm, felly'n cwrdd â'r holl feini prawf (roedd mesurau wedi'u gosod ar 2,146 o'r cartrefi hyn).

Roedd y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau ar sail meini prawf iechyd ar gyfer aelwydydd agored i niwed:

- 69.4% yn 60 oed neu'n hŷn.
- 62.2% mewn aelwydydd gydag un incwm yn 60 oed neu'n hŷn.
- 37.6% mewn aelwydwydd lle roedd dau oedolyn yn 60 oed neu'n hŷn.
- roedd 89.5% o aelwydydd yn byw mewn eiddo gyda sgôr effeithlonrwydd ynni o E, F neu G.
- roedd 10.5% o aelwydydd yn byw mewn eiddo gyda sgôr effeithlonrwydd ynni o D.
- mae 67.6% o aelwydydd yn ennill incwm sydd £1,342 bob mis islaw'r trothwyon incwm a 32.4% yn is na £1,779 bob mis o'r trothwy incwm.


# Nodweddion Aelwydydd ac Eiddo

## Nod Nyth yw codi pobl allan o dlodi tanwydd lle y bo'n bosibl.


Yn ystod y broses gychwynnol o wneud cais, gofynnir i ddeiliaid tai nodi manylion eu hincwm. Caiff y wybodaeth hon ei hasesu yn erbyn costau rhedeg wedi'u modelu ar gyfer eu haelwyd. Mae hyn yn galluogi Tîm Cyngor Nyth i amcangyfrif a yw'r cwsmer yn debygol o fod yn byw mewn tlodi tanwydd.

Ystyrir bod aelwydydd sy'n gwario mwy na 10% o'u hincwm ar filiau ynni yn byw mewn tlodi tanwydd ac ystyrir bod aelwydydd sy'n gwario mwy nag 20% yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol.


Amcangyfrifwyd bod 50.4% o aelwydydd a gysylltodd â Nyth yn byw mewn tlodi tanwydd cyn cael gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref. Mae hyn yn cynnwys 15.7% o aelwydydd a oedd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol.




Mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad o ddeiliadaeth ar gyfer aelwydydd a gafodd becyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref; roedd 79.4% wedi'u meddiannu gan y perchennog a 20.6% wedi'u rhentu'n breifat.





Mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad o'r deiliaid tai a gafodd becyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn ôl eu hoedran.







Mae'r dadansoddiad o ddosbarthiad trefol a gwledig[1] cwsmeriaid a gafodd becyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn dangos bod 67.2% o aelwydydd yn byw mewn ardaloedd trefol a 32.8% yn byw mewn ardaloedd gwledig (cynnydd o 3.3% o gymharu'r â'r flwyddyn flaenorol).


Nid oedd 17.8% o gwsmeriaid wedi'u cysylltu â'r prif grid nwy cyn rhoi mesurau ar waith o dan y cynllun, ac roedd 82.2% wedi'u cysylltu.




Dangosir dadansoddiad o aelwydydd sydd wedi cael pecyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn ôl math o eiddo yn y graff isod.




Manylir isod ar y mathau o danwydd a ddefnyddir gan dderbynwyr pecynnau effeithlonrwydd ynni cartref yn 2020-21.




1. Mae'r diffiniadau o Drefol a Gwledig yn seiliedig ar ddosbarthiadau a dderbynnir sydd ar gael gan y **Swyddfa Ystadegau Gwladol**. Mae'r Dosbarthiad yn diffinio ardaloedd fel rhai gwledig os ydynt yn aneddiadau tu allan i ardaloedd trefol sydd â phoblogaeth o fwy na 10,000 o breswylwyr.

# Gwella effeithlonrwydd ynni

## Yn 2020-21, mae gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref Nyth wedi sicrhau cyfartaledd arbedion amcangyfrifedig o £305 y flwyddyn fesul aelwyd ar filiau ynni, gan wneud gwahaniaeth enfawr i gwsmeriaid sy'n dlawd o ran tanwydd.


Mae'r ddwy siart yn dangos dadansoddiad fesul band SAP ar gyfer aelwydydd cyn ac ar ôl iddynt gael pecynnau gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref. Roedd pob eiddo lle y gosodwyd mesurau yn aneffeithlon iawn o ran ynni cyn gwelliannau – sgôr E (6.1%), F (31.6%) neu G (62%).


Ar ôl gosod y pecyn o welliannau ynni cartref, cynyddodd sgôr 83% o eiddo i C neu D a chynyddodd sgôr 14.3% o eiddo arall i E a 2.7% i F. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r eiddo a gafodd welliannau yn parhau i fod â sgôr E am na fu'n bosibl dangos y byddai'r mesurau mwy cynhwysfawr a oedd yn ofynnol yn sicrhau gwerth am arian. Yn 2020-21, ni wnaeth yr un eiddo aros ar sgôr G.

Mae cynllun Nyth yn cyfrifo effeithiau gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar gartrefi gan ddefnyddio sgôr RdSAP[2]. Mae'r feddalwedd yn mesur sgôr SAP cyn ac ar ôl i fesurau addas gael eu gosod. Y nod yw gosod pecyn o fesurau er mwyn cynyddu sgôr ynni eiddo tuag at sgôr SAP o C lle y bo'n bosibl, pan fo'n gosteffeithiol i wneud hynny. Caiff y mesurau gwirioneddol a osodir eu hailfodelu er mwyn ystyried unrhyw newidiadau i'r pecyn gwreiddiol o ganlyniad i broblemau technegol neu am fod cwsmeriaid wedi newid eu meddwl.

Mae asesydd Nyth yn nodi sgôr SAP gyfredol yr eiddo a'r sgôr SAP bosibl pe bai pecyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn cael ei osod. Mae eiddo band A yn effeithlon iawn o ran ynni a'r rhain fydd â'r costau rhedeg isaf; mae gan eiddo band G sgôr effeithlonrwydd ynni wael sy'n golygu y bydd yn costio mwy i'w gwresogi a'u goleuo i'r un safon.

Mae buddiannau yn seiliedig ar ganlyniadau wedi'u modelu a bydd y gostyngiadau a'r arbedion gwirioneddol yn dibynnu ar ymddygiad y cwsmer unigol. Yn aml, nid yw aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd yn gwresogi eu cartrefi mewn ffordd effeithiol ac felly, mewn rhai achosion, bydd y buddiannau i'r cwsmer yn golygu eiddo mwy cyfforddus a llesiant gwell wrth i'r cartref gael ei wresogi mewn ffordd fwy effeithiol, yn hytrach na gostyngiad mewn biliau tanwydd.




**2. RdSAP a SAP** – Y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) yw methodoleg Llywodraeth y DU ar gyfer asesu a chymharu perfformiad ynni a pherfformiad amgylcheddol anheddau. Cyflwynwyd y SAP data gostyngol (RdSAP) yn ddiweddarach fel ffordd fwy costeffeithiol o asesu anheddau a oedd yn bodoli eisoes.

## Arbedion Aelwyd

Mae'r siart yn dangos dadansoddiad o arbedion ynni wedi'u modelu fesul aelwyd lle y gosodwyd mesurau yn ôl awdurdod lleol, gyda chyfartaledd arbediad amcangyfrifedig o £305 y flwyddyn neu 20,323 megajoule (unedau o ynni) y flwyddyn. Mae hynny'n gynnydd o 17,934 yn 2019-20.

Mae hefyd yn dangos dadansoddiad yn ôl gostyngiadau mewn allyriadau carbon oes gyfan ar gyfer yr aelwydydd a gafodd becyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref. Yn ôl yr hyn a fodelwyd, bydd cyfanswm yr allyriadau oes yn gostwng $CO_2$ fwy na 94,000 o dunelli.

Arbedion gyfwerth â chymryd dros **40,000 o geir** oddi ar y ffordd am flwyddyn.




| Labeli Rhesi | Swm yr Arbedion $CO_2$ Oes Gyfan | Arbedion Cyfartalog o ran y Defnydd o Ynni | Arbedion Blynyddol Cyfartalog o ran Cost Tanwydd |
|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 2,495 | 22,511 | £262 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 4,758 | 20,715 | £294 |
| **Caerffili** | 5,305 | 21,090 | £250 |
| **Caerdydd** | 4,618 | 18,969 | £198 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 9,600 | 20,621 | £344 |
| **Ceredigion** | 3,995 | 22,477 | £477 |
| **Conwy** | 3,434 | 19394 | £288 |
| **Sir Ddinbych** | 2,455 | 18,228 | £173 |
| **Sir y Fflint** | 2,553 | 18,985 | £199 |
| **Gwynedd** | 5,486 | 23,224 | £711 |
| **Ynys Môn** | 2,954 | 22053 | £323 |
| **Merthyr Tudful** | 2,220 | 22,253 | £257 |
| **Sir Fynwy** | 1,212 | 21,322 | £239 |
| **Castell-nedd** | 7,136 | 18,997 | £296 |
| **Casnewydd** | 3,195 | 19,824 | £253 |
| **Sir Benfro** | 7,189 | 19,909 | £427 |
| **Powys** | 4,623 | 21,589 | £415 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 10,208 | 21,618 | £338 |
| **Abertawe** | 5,096 | 18,326 | £217 |
| **Bro Morgannwg** | 1,830 | 19,739 | £237 |
| **Torfaen** | 1,828 | 20,051 | £266 |
| **Wrecsam** | 2,196 | 18,800 | £222 |

# Buddsoddiad Llywodraeth Cymru

## Yn ystod 2020-21, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £20.1 miliwn drwy fesurau Nyth.

Mae'r graff yn dangos canran y gosodiadau a gwblhawyd yn ôl ardal awdurdod lleol ynghyd â dosbarthiad aelwydydd tlawd tanwydd yn ôl awdurdod lleol, 2017-18 (y data mwyaf diweddar sydd ar gael).

Gwaith Gosod yn ôl Ardal Awdurdol Lleol 2020-21
Dosbarthiad Aelwydydd sy'n Dlawd o ran Tanwydd, yn ô Awdurdod Lleol 2017-18





Gwaith Gosod yn ôl Ardal Awdurdol Lleol

Dosbarthiad Aelwydydd sy'n Dlawd o ran Tanwydd, yn ô Awdurdod Lleol

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

Gwariant Cyfartalog yr Awdurdod Lleol Fesul Aelwyd 2020-21

Mae'r siart hon yn dangos y gwariant cyfartalog ar welliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn ôl awdurdod lleol. Mae'r gwariant yn uwch mewn rhai awdurdodau lleol o ganlyniad i nifer yr eiddo nad oeddent wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy.





# Boddhad Deiliaid Tai

## Mae boddhad cwsmeriaid â Nyth wedi bod yn gyson uchel dros oes y cynllun. Yn 2020-21, nododd 99% o gwsmeriaid eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau cynghori a'r gosodiadau a ddarparwyd gan Nyth.

All householders advised by the scheme are issued with a postal survey and asked to rate the service according to their satisfaction. Householder satisfaction is recorded and managed including any complaints relating to each stage of the customer journey.

The charts below show the complaint volume represented just 1.2% of all customers receiving a home energy efficiency improvement package and the majority of customers (99%) were satisfied with the installation service provided.




*"Ar ôl siarad â rhywun am frys fy sefyllfa, llwyddodd cynghorydd i drefnu asesydd drannoeth i mi. Diolch i hyn cwblhawyd y gwaith o fewn dyddiau! Diolch i chi am ddeall fy sefyllfa, bydd y newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr."*
*Un o Drigolion, Caerffili*

# Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

## Nod Nyth yw cyrraedd pob rhan o gymdeithas er mwyn sicrhau bod aelwydydd y mae angen cymorth arnynt yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael a'u bod yn gallu defnyddio'r cynllun.

Mae gwaith y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau, yn benodol, yn gosod y cynllun ochr yn ochr ag amrywiaeth o bartneriaid sy'n cynnig cymorth hanfodol i aelwydydd ledled Cymru. Mae'r cyngor a'r gwasanaeth cyfeirio sydd ar gael gan Nyth yn aml yn cyfrannu at ddatrysiad aml-asiantaeth i deuluoedd sy'n wynebu sawl her.

Rydym yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol, timau rhyddhau cleifion a meddygfeydd ac ysbytai cymuned. Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau wedi datblygu partneriaethau cyfredol ac wedi sefydlu partneriaethau newydd o fewn y sector iechyd gan gydnabod yr effaith y gall cartref oer ei chael ar iechyd a llesiant unigolyn.

Sefydlodd y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau gydberthnasau â nifer o sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio gyda phobl sydd ag anghenion cyfathrebu penodol gan gynnwys Parkinson's UK, Headway, Mind Cymru, Y Gymdeithas Strôc a Deafblind.

Hefyd, gweithiodd y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau ag elusennau sy'n cynorthwyo pobl â salwch hirdymor, gan gynnwys Macmillan, Cymdeithas Alzheimer's, Mencap, Y Gymdeithas Macwlaidd, SCOPE a Chyfeillion Dementia, gan gydnabod yr anawsterau ariannol y gall pobl â chyflyrau penodol eu hwynebu.

Rydym yn parhau i gynnal cydberthnasau â sefydliadau sy'n cynorthwyo pobl hyn yng Nghymru. Gweithiodd y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau yn agos ag asiantaethau Age Cymru ac Age Connects a chyda Gofal a Thrwsio lle mae proses atgyfeirio ddwy ffordd yn sicrhau y gall deiliaid tai gael gafael ar y gwasanaethau penodol a ddarperir gan y ddau sefydliad.

Rydym hefyd wedi cynyddu ein gwaith ymgysylltu â sefydliadau sy'n ein cynorthwyo i gyrraedd y gymuned Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (BAME) a mudwyr, gan sefydlu cydberthnasau â **Race Equality First** ac **ACE (Sicrhau Newid trwy Gyflogaeth)**.

Ynghyd â'r gweithgareddau ymgysylltu â phartneriaethau, mae gwybodaeth am gynllun Nyth ar gael mewn nifer o fformatau gwahanol gan gynnwys fformat hawdd ei ddarllen, braille, sain, print bras a digidol ac mewn sawl iaith. Cefnogir yr adnoddau hyn gan Language Line er mwyn cynnig gwasanaeth cyfieithu i'r cwsmeriaid hynny lle nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf a thrwy wasanaeth minicom neu wasanaeth Next Generation Text i gwsmeriaid sy'n fyddar neu â nam ar eu lleferydd, er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu defnyddio'r cynllun.

Yn 2020-21, gwnaethom anfon arolwg Amrywiaeth a Chynhwysiant at ein cwsmeriaid. Dangosodd y canlyniadau fod y cynllun Nyth yn ymgysylltu ag ystod o grwpiau ethnig ledled Cymru.

# Sicrhau Buddiannau Ychwanegol

## Mae cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn parhau i ragweld y bydd lluosydd lleol o £2 yng Nghymru. Mae'r lluosydd hwn yn mesur sut mae gwariant cynllun Nyth yn sicrhau effaith a budd economaidd lleol i gymunedau – am bob £1 a gaiff ei gwario ar gynllun Nyth, cafwyd £2 o fudd economaidd.

Y bwriad yw sicrhau'r gwerth gorau am arian yn ei ystyr ehangaf. Mae Nyth yn sicrhau bod ein strategaeth Buddiannau Cymunedol yn ymgorffori ac yn sicrhau canlyniadau ar gyfer pob un o'r canlynol:

- Creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer grwpiau â blaenoriaeth
- Mentrau Cymorth Addysgol
- Hyfforddiant Galwedigaethol ac uwchsgilio'r gweithlu presennol
- Mentrau cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Meithrin gallu mewn Sefydliadau Cymunedol
- Datblygu cadwyni cyflenwi
- Cyfleoedd is-gontractio i BBaChau, y trydydd sector a busnesau a gefnogir

Isod ceir crynodeb o'n cyflawniadau allweddol gyda rhai o'r prosiectau a gyflawnwyd yn 2020-21.

### Mentrau Cymorth Addysgol

BUSINESS IN THE COMMUNITY

Responsible Business Champion Cymru **2020**

Cafodd Nyth ei enwi fel hyrwyddwr busnes cyfrifol yng **Ngwobrau Busnesau Cyfrifol 2020** Busnes yn y Gymuned (BiTC) Cymru. Ers dros 20 mlynedd, mae Gwobrau Busnesau Cyfrifol Busnes yn y Gymuned wedi arddangos straeon trawsnewidiol am fusnesau sy'n cymryd camau go iawn i ddatblygu cymunedau sy'n ffynnu. Bob blwyddyn, mae'r Gwobrau yn dathlu'r busnesau hynny sy'n dangos arweinyddiaeth gref a chynhwysol, sy'n arloesi'n barhaus er mwyn mynd i'r afael â materion cymdeithasol pwysig a thrwsio ac ailadeiladu ein planed.

Drwy raglen Dosbarth Busnes BiTC, mae dros 1,170 o fyfyrwyr a 39 o ysgolion wedi cymryd rhan yng nghystadleuaeth ranbarthol Nyth, sef Cre8. Mae Cre8 yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni ac mae'n gwella dealltwriaeth disgylion o'r byd gwaith.

Bellach yn ei phedwaredd blwyddyn, mae ein partneriaeth ag Ysgol Clywedog, Wrecsam wedi rhoi cyfle i Nyth weithio gyda phob grŵp blwyddyn yn yr ysgol, gan gyflwyno sesiynau sgiliau cyflogadwyedd, hyfforddiant i swyddogion, sgyrsiau mewn gwasanaethau a rhaglen cydnabod a gwobrwyo presenoldeb. Yn fwyaf diweddar, gofynnwyd i fyfyrwyr Blwyddyn 10 ganolbwyntio ar yr hyn y mae gwasanaeth cwsmeriaid da yn ei olygu drwy gwblhau

Tystysgrif Estynedig Addysg Gysylltiedig â Gwaith Agored Cymru.

Mae Nyth wedi parhau i gefnogi ysgolion o ran addasu i addysg yn ystod COVID-19, gan ailddatblygu deunydd ac ymateb i ofynion rhithwir dysgu ar-lein.

- Mae cyfres o weithdai cyflogadwyedd wedi cael eu cynllunio a'u hyrwyddo.
- Mae her Menter a Chyflogadwyedd CBAC Nyth hefyd wedi cael ei haddasu i'w chyflwyno.

### Datblygu Cadwyni Cyflenwi

Gan adeiladu ar lwyddiant ein rhaglen arian cyfatebol i brentisiaid, gwnaed addasiadau i'n cadwyn gyflenwi eleni er mwyn sicrhau ei bod yn fwy cynhwysol. Roedd y ceisiadau yn seiliedig ar fuddiannau economaidd, cymdeithasol a busnes cael aelodau newydd o'r gweithlu i'w hyfforddi a'u huwchsgilio. Roedd y ceisiadau a ddaeth i law yn nodi faint y byddai'r datblygiad a'r buddsoddiad hyn yn ei olygu i'w cwmnïau.

*"Mae MCL Environmental yn falch ein bod yn gallu buddsoddi mewn offer a chyfarpar o ansawdd uchel ar gyfer ein gweithwyr a'n goruchwylwyr. Bydd yr arian a geir gan Nyth, ar gyfer hyfforddi ac uwchsgilio ein gweithwyr, yn cael ei ailfuddsoddi yn ôl yn y cwmni er mwyn prynu offer a chyfarpar. Prynu cyfleuster dihalogi a lles hunangynhwysol am £16,000. Y cyntaf o'i fath yng Nghymru"*

Am y ddwy flynedd nesaf, mae Nyth wedi ymrwymo i gyfrannu arian ar gyfer:

- Saith prentis plymio a gwresogi
- Dau brentis trydanol
- Dau weithiwr gwaredu asbestos cymwysedig/wedi'u huwchsgilio
- Un gweithiwr sgaffaldiau cymwysedig/wedi'i uwchsgilio
- Yn ogystal, bydd naw prentis yn cael hyd at £1,000 ar gyfer offer a hyfforddiant a bydd y gweithwyr asbestos a sgaffaldiau yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol er mwyn cymhwyso/uwchsgilio.

### Creu Swyddi a Chyfleoedd Hyfforddi ar gyfer Grwpiau a Blaenoriaeth

Fel cyflogwr yng Nghymru, mae Nyth yn parhau i gefnogi'r cymunedau y mae'n gweithio ynddynt ac ysbrydoli pobl ifanc gydag amrywiaeth o fentrau cyflogaeth. Yn 2020-21, ymrwymodd Nyth i gefnogi'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni gyda ei chyfleoedd cyflogaeth tymhorol. Oherwydd COVID-19, cafodd gweithdai wyneb yn wyneb a gynlluniwyd ar gyfer mis Ebrill 2020 eu haddasu a gwnaethom ddechrau cyflwyno sesiynau 1-2-1 rhithwir ym mis Mehefin.

Roedd y sesiynau wedi'u teilwra'n benodol at yr ymgeisydd ac nid oeddent yn rhan o'r broses o wneud cais gyda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Daeth 17 o ddarpar ymgeiswyr i'w sesiwn gyda 10 ohonynt yn gwneud cais am swyddi gwag gyda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Mae un ymgeisydd wedi cael ei gyflogi gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

Rydym wedi parhau i roi cymorth cyflogaeth i Ganolfannau Byd Gwaith ledled de-ddwyrain Cymru, gan gynnal gweithdai cyflogaeth wythnosol ar gyfer cwsmeriaid Canolfannau Byd Gwaith. Mae adborth o'r sesiynau wedi bod yn amhrisiadwy er mwyn parhau â'r sesiynau hyn. Mae ein canlyniadau ar gyfer Ch1 2021 fel a ganlyn:

- Cyflwynwyd 14 o weithdai yn rhithwir gyda 61 o gwsmeriaid yn bresennol. Mae'r uchafbwyntiau o'r arolwg adborth yn cynnwys:
- Byddai 100% o'r ymatebwyr yn argymell y gweithdy i bobl eraill.
- Mae 95% o'r ymatebwyr wedi casglu atebion ar gyfer cwestiynau posibl mewn cyfweliad.
- Gwnaeth 91% o'r ymatebwyr newidiadau i'w CV ar ôl y gweithdy.
- Mae 65% o'r ymatebwyr wedi cael canlyniad cadarnhaol (naill ai mewn cyflogaeth neu drwy ymgymryd â phrofiad gwaith gwirfoddol).

# Edrych i'r dyfodol

## Mae cynllun Nyth wedi bod yn gweithredu ers 2011, ond mae'r angen i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a helpu'r rhai sydd fwyaf mewn angen mor bwysig ag erioed. Mae'r cynllun wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i gefnogi aelwydydd y mae COVID-19 wedi effeithio arnynt.

Mae cynllun Nyth yn parhau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru a bydd yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner i sicrhau bod y cynllun yn cyrraedd yr aelwydydd hynny sydd â'r angen mwyaf
- Cyfrannu at **strategaeth tlodi tanwydd 2021-2035** Llywodraeth Cymru
- Gweithredu ar argymhellion Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru
- Parhau i helpu mentrau Tai Cydweithredol a chefnogi'r sector rhentu preifat
- Gweithredu'n unol â'r gwerthoedd a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys cydweithio, integreiddio ac atal

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gweithgareddau budd cymunedol. Gan weithio gyda'n rhwydwaith o osodwyr a chyflenwyr yng Nghymru, byddwn yn arwain tîm o wirfoddolwyr er mwyn cynnal prosiect adfywio cymunedol ac adnewyddu adeilad neu ardal gymunedol ar y cyd â phartneriaid lleol.

Caiff gweithgareddau budd cymunedol eu cynyddu drwy geisio partneriaethau newydd a chefnogi sefydliadau cymunedol ledled Cymru. Lansiwyd cystadleuaeth addysg effeithlonrwydd ynni newydd, **Cartref y Dyfodol**, ym mis Ebrill 2021 mewn partneriaeth â Technocamps, sefydliad sy'n ceisio cynyddu ymgysylltiad pobl ifanc â phynciau STEM.

Bydd gwaith hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth a dysgu yn parhau, mewn partneriaeth â Chanolfannau Byd Gwaith lleol, ein partneriaethau ag ysgolion a thrwy **fenter Partner Gwerthfawr Ysgol** Gyrfa Cymru a'r rhaglen **Cymunedau dros Waith**.

**Dysgwch fwy am y ffordd y gall cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru helpu i wneud eich cartref yn gynhesach ac yn fwy effeithlon o ran ynni:**

| | |
|---|---|
| Ffoniwch radffôn | **0808 808 2244** |
| Ewch | **nyth.llyw.cymru** |
| Facebook | **nestwales** |
| Twitter | **@NythCymru** |